# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2021-2022



# Governors Annual Report for Parents 2021-2022



Ar ran Llywodraethwyr yr ysgol hoffwn gyflwyno'r adroddiad hwn i chwi. Bydd yr Adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ichi o waith yr Ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle ar ran y Llywodraethwyr i ddiolch yn fawr i Mrs Thomas, Ein Pennaeth am ei harweiniad cadarn yn ystod y flwyddyn diwethaf ac i'r Staff i gyd am eu gwaith di-flino yn sicrhau lles y disgyblion ac am eu gwaith caled a'u hymroddiad i Ysgol Bro Elwern

Rydym fel Llywodraethwyr yn gwerthfawrogi pob cefnogaeth a gawn gennych fel rhieni. Gyda'n gilydd byddwn yn cyd-weithio i sicrhau bod Ysgol Bro Elwern yn cynnig addysg o'r safon uchaf a'r gofal o'r ansawdd gorau i bob plentyn.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, cysylltwch a'r ysgol er mwyn i ni drefnu cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr.

Gyda dymuniadau gorau,
Emyr Williams,
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgolion Ffederal Betws Gwerful Goch a Bro Elwern

On behalf of the school Governors I would like to present this report to you. This report will give you an overview of the school's work over the last year and it's aims for the next year.

I would like to take this opportunity on behalf of the Governors to thank Mrs Thomas, Head Teacher for her leadership during the last year and to all the Staff for their hard work in ensuring the welfare of the pupils and for their dedication to Ysgol Bro Elwern.

As Governors we appreciate all the support we receive from you as parents. We will work together to ensure that Ysgol Bro Elwern will be the best possible school, offering education of the highest standard and the best quality of care for all our pupils.

If you wish to discuss any aspect of this report, and meet with the Governors please contact the school.

Best Wishes
Mr Emyr Williams
Chair of Ysgol Betws GG and Ysgol Bro Elwern's Board of Governors

# Rôl y Corff Llywodraethu

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr Ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Rhaid i Ysgol Bro Elwern weithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth a bod polisïau'r Awdurdod Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu dilyn.

Y Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am redeg yr Ysgol o ddydd i ddydd tra bod y Corff Llywodraethu yn cyflawni rôl strategol. Mae'r Pennaeth, a'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Corff Llywodraethol er mwyn sicrhau bod disgyblion yr Ysgol yn derbyn yr addysg gorau.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cwrdd yn rheolaidd. Mae gan y Corff Llywodraethu nifer o bwyllgorau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o waith yr Ysgol

# Role of the Governing Body

The Governing Body is responsible for ensuring the school is run efficiently. Ysgol Bro Elwern must operate within the framework set by law and follow the Local Authority and Welsh Government's policies.

The Head and Senior Leadership Team is responsible for the day to day running of the School whilst the Governing Body completes a strategic role. The Head and Senior Leadership Team works together with the Governing Body to ensure that our pupils receive the best possible education.

The Governing Body meets regularly. There are sub-committees responsible for various aspects of the School's work.

# Y Corff Llywodraethu 2021-2022

## Ysgol Betws Gwerful Goch

Mrs Rhian Thomas
Miss Elain Hughes
Mrs Helen Hitchmough
Mr Trebor Edwards
Mrs Donna Roberts
Mrs Sally Lloyd-Davies
Mrs Lisa Lloyd-Davies
Mr Hefin Lloyd-Davies
Mr Eryl Evans

## Ysgol Bro Elwern

Mrs Rhian Thomas
Mr Robert Kimberley
Miss Elin Pyrs
Mrs Iona Roberts
Mr Aled Roberts
Mrs Sian Wyn Jones
Mr Clwyd Jones
Mr Alun Pritchard
Mrs Sian Parry

Clerc Mrs Nest Davies

# The Governing Body 2021-2022

## Ysgol Betws Gwerful Goch

Mrs Rhian Thomas
Miss Elain Hughes
Mrs Helen Hitchmough
Mr Trebor Edwards
Mrs Donna Roberts
Mrs Sally Lloyd-Davies
Mrs Lisa Lloyd-Davies
Mr Hefin Lloyd-Davies
Mr Eryl Evans

## Ysgol Bro Elwern

Mrs Rhian Thomas
Mr Robert Kimberley
Miss Elin Pyrs
Mrs Iona Roberts
Mr Aled Roberts
Mrs Sian Wyn Jones
Mr Clwyd Jones
Mr Alun Pritchard
Mrs Sian Parry

Clerk Mrs Nest Davies

# Ysgol Bro Elwern

## Ein Gweledigaeth

Yn ein Ysgolion bydd ein plant yn cael eu cefnogi i gyflawni i'w llawn potensial ac adeiladu eu hunan hyder.

Byddwn yn dysgu a chreu cyfleoedd amrywiol gyda'n gilydd.

Gan flaenoriaethu lles meddyliol ac emosiynol bob amser.

## Ein Gwerthoedd

Bod yn garedig

Ymddiried yn ein gilydd

Creu awyrgylch hapus

## Ein Disgwyliadau



# Ysgol Bro Elwern

## Our Vision

In our Schools our children will be supported to reach their full potential and build their self confidence.

We will teach and create varied opportunities together.

Whilst prioritising mental and emotional wellbeing.

## Our Values

**Be kind**

**Trust each other**

**Create a Happy Atmosphere**

## Our Expectations



# Digwyddiadau'r Flwyddyn

Yn dilyn y cyfnod clo anodd, prin oedd y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau ar ddechrau tymor yr Hydref 2021. Ond datblygodd hyn ar hyd y flwyddyn a cafodd ein disgybylion amrywiaeth o brofiadau erbyn Gwanwyn a Haf 2022.

- Gwasanaethau diolchgarwch
- Ymweliadau Heddwas PC Llinos
- Cerddorfa make some noise yn yr ysgol.
- Cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd
- Nosweithiau Pwyllgor rhieni ac athrawon
- Cyngherdd Nadolig
- Sioeau Nadolig
- Gweithgareddau Ffrindiau Dimentia.
- Ymweliadau nyrs yr ysgol
- Clybiau'r ysgol
- Jamborî i blant y Cyfnod Sylfaen
- Cystadleuthau pel droed yr Urdd

- Cystadlaethau celf a chrefft yr Urdd
- Gweithdy gwrth-fwlio
- Parti Nadolig
- Gweithgareddau Dydd Miwsig Cymru
- Gweithgareddau Dydd Gwyl Dewi
- Dathliadau Diwrnod y Llyfr
- Sesiynnau Trosglwyddo Ysgol Brynhyfryd a Godre'r Berwyn.
- Gweithgareddau Cogurdd.

# This Year's Events

Following a difficult period during lockdown the opportunities for our children to take part in many activities were few and far between at the beginning of the Autumn Term in 2021. However over the year things developed and by Spring and Summer 2022 there were more opportunities available.

Events
Thanksgiving services
Visits from PC Llinos
Workshops
Make Some Noise Orchestra at school
Urdd Competitions
Parents & Teachers Association
Christmas Concerts
Christmas Shows
School Nurse visit
School clubs
Foundation Phase Jambori
Urdd Football

Urdd Art & Craft Competition
Anti-bullying workshop
Christmas Party
Wales Music Day
St Davids Day activities
World Book Day
Taster days Brynhyfryd School & Godre'r Berwyn
Cogurdd


# Cyfrwng Iaith yr Ysgol

Mae Ysgol Bro Elwern yn ysgol naturiol Gymraeg. Cyflwynir yr iaith Saesneg i blant ym Mlwyddyn 3. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, bydd y plant yn gwbl ddwyieithog.

# Hybu Bwyta'n Iach

Yr ydym yn hyrwyddo bwyta'n iach o ddydd i ddydd yn yr ysgol trwy'r caffi ffrwythau yn y Dysgu Sylfaen. Mae Clwb Brecwast yn dilyn canllawiau'r Sir ar gyfer bwyta'n iach. Gofynnwn i rhieni sydd yn gyrru bocs bwyd i'r ysgol lynnu at y rheolau yma hefyd.

# Asesu a Chynnydd Pob Un Disgybl



## Asesu a Chynnydd

Credwn yn gryf bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i wneud cynnydd yn eu dysgu ac felly dyna yw prif bwrpas i'n gweithdrefnau asesu ni yn ein hysgolion. Cawn ddarlun cyflawn o ddatblygiad bob plentyn yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth iddynt gamu fyny drwy flynyddoedd cynnar eu haddysg. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd cydweithio a cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr y ddwy ysgol a bod hyn yn datblygu o sgyrsiau proffesiynol rheolaidd gyda'n gilydd, rhieni a gofalwyr. Fel hyn rydym yn ymateb i Ddibenion Asesu'r Cwricwlwm....

**Dangos cynnydd**

O ymuno a'r ysgol hyd nes gadael mae sampl o waith bob dysgwr yn cael ei gasglu a'i gadw mewn ffeil personol. Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

**Cefnogaeth barhaus i'n dysgwyr yn ddyddiol**

Mae systemau asesu cyson ar lawr dosbarth yn rhoi darlun clir i ymarferwyr ac i'r dysgwyr o'u cyrhaeddiad a beth yw eu camau nesaf. Mae'n bwysig i ni bod pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnydd eu hunain o dan arweiniad ac anogaeth.

**Myfyrio a mireinio cynnydd dysgwyr unigol dros amser**

Sicrhair fod cyfnodau penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer sgyrsiau proffesiynol er mwyn trafod cynnydd pellach. Cyfle yw hyn hefyd i sicrhau pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau ac ysgolion uwchradd.


## Linguistic Medium of the School

Ysgol Bro Elwern is a natural Welsh school. The children are introduced to the English language in Year 3. By the end of Key Stage 2, the children will be totally bilingual.


## Promoting Health Eating

We promote healthy eating in school from day to day by means of the fruit cafe in Foundation Phase. The Breakfast Club follow the County guidelines for healthy eating. We like to ask parents who give their children a packed lunch to consider healthy options.


## Assessment and Progression of Every Pupil




# Trefniant Ein Cwricwlwm





# Ein Cyswllt a'r Gymuned



# Our Curriculum




# Links with the Community



# Ein Cynllun Datblygu Ysgol

## Ein Blaenoriaethau 2021-2022




Datblygu Ein Cwricwlwm

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Datblygu Lles

# Our School Development Plan

## Our Priorities 2021-2022




Curriculum Development

Additional Learning Needs

Develop Wellbeing

# Diolch yn fawr/Thank you




Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2021-2022

Governors Annual Report for Parents 2021-2022